Diwedd y tymor!

Mae'n anodd credu ein bod wedi cyrraedd diwedd tymor yr Hydref! Hoffwn ddiolch yn fawr i bob aelod o gymuned yr ysgol am eich holl gefnogaeth drwy gydol y tymor. Hoffwn eich atgoffa bod dydd Llun, 06/01/25, yn ddiwrnod HMS ac felly bydd yr ysgol yn ail-agor i ddisgyblion ar ddydd Mawrth 07/01/25. Hoffwn ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi i gyd!

The end of term!

It's hard to believe that we have reached the end of the Autumn term! I would like to say a big thank you to every member of the school community for your support throughout the term. I would like to remind you that Monday 06/01/25 is an INSET day and therefore the school will re-open for pupils on Tuesday 07/01/25. I would like to wish you all a merry Christmas and a happy new year!

Adroddiad ESTYN

Mae ein hadroddiad ESTYN diweddar yn adlewyrchiad o waith diflino, ymroddiad ac ymrwymiad parhaus pob aelod o gymuned yr ysgol. Rydym yn falch bod Ysgol Gymraeg Pwll Coch wedi'i chydnabod fel amgylchedd ysgol gynhwysol a hapus lle mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi. Rydym yn hynod o falch bod ein disgyblion wedi derbyn canmoliaeth am eu cariad tuag at yr iaith Gymraeg yn ogystal â'u gwerthfawrogiad o'r amrywiaeth hyfryd o ddiwylliannau o fewn ein hysgol a'n cymuned leol. Rydym yn ymfalchïo yn y gydnabyddiaeth o'n cyflawniadau ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella ein darpariaeth ymhellach er budd ein holl ddysgwyr.

ESTYN Report

Our recent ESTYN report is testament to the tireless work, dedication and continued commitment of every member of the school community. We are thrilled that Ysgol Gymraeg Pwll Coch has been recognised as an inclusive and happy school environment where every pupil is valued. We are extremely proud that our pupils have been commended for their love of the Welsh language as well as their appreciation of the wonderful diversity of cultures within our school and local community. We are delighted with the recognition of our achievements and remain committed to further enhancing our provision for the benefit of all our learners.

Neges gan Gadeirydd y Corff Llywodraethu

Hoffwn longyfarch yr ysgol yn fawr ar gyhoeddiad arolwg Estyn yr wythnos hon. Mae'n nodi ei bod yn 'gymuned ddysgu egnïol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi'. Diolch i'r holl staff am eu gofal caredig, eu haddysgu blaengar a'r cyfleoedd arbennig mae pob plentyn yn ei dderbyn yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Mr Rees a Mrs Sampson am eu harweinyddiaeth a'u gweledigaeth barhaus. Rydym yn falch iawn o gymuned Pwll Coch ac yn dymuno gwyliau heddychlon a haeddiannol i staff, disgyblion a theuluoedd Pwll Coch.

A message from the Chair of the Governing Body

Warm congratulations to the school on the published Estyn report this week. It states that it is a 'lively and inclusive learning community where pupils feel safe and valued'. Thank you to all the staff for their kindness and care, their engaging teaching as well as the rich opportunities each child receives at school. Our special thanks to Mr Rees and Mrs Sampson for their continued leadership and vision. We are very proud of the community of Pwll Coch and wish the staff, pupils and families of Pwll Coch a peaceful and well-deserved holiday.

Diolch didwyll ar ran y Corff Llywodraethu.

Sincere thanks on behalf of the Governing Body.

Yn gywir/ Yours sincerely,

Nona Gruffudd-Evans

(Cadeirydd y Corff Llywodraethu/Chair of the Governing Body)

Llwyddiant y Ffair Nadolig!

Diolch i waith Ffrindiau Pwll Coch a chefnogaeth holl gymuned yr ysgol, rwy'n blês iawn i'ch hysbysu ein bod wedi codi £3,300 rhwng y Ffair Nadolig a'r Raffl. Anhygoel! Bydd bob ceiniog yn cyfrannu'n sylweddol at welliannau ysgol gyfan a phrofiadau i'n disgyblion. Diolch!

Another successful Christmas Faye!

Thanks to the work of Ffrindiau Pwll Coch (PTA) and the support of the whole school community, I am very pleased to inform you that we have raised £3,300 between the Christmas Fair and the Raffle. Amazing! Every penny will contribute significantly to whole school improvements and experiences for our pupils. Diolch!

Parti Bollywood Pwll Coch!

Bydd parti Bollywood yn yr ysgol ar brynhawn dydd Gwener, 14/02/25! Bydd hwn yn gyfle cyffrous i fwynhau bwyd, dawnsio a drymio Indiaidd! Dewch yn llu!

Pwll Coch Bollywood Party!

There will be a Bollywood party at the school on Friday afternoon, 14/02/25! This will be an exciting opportunity to enjoy Indian food, dancing and drumming! We can't wait to see you all there!

Côr yr Ysgol

Mae wedi bod yn gyfnod prysur i gôr yr ysgol sydd wedi bod yn canu carolau yn Asda ac mewn cartrefi gofal lleol. Rydyn ni'n falch iawn o bob un ohonoch chi!

School Choir

It has been a busy time for the school choir who have been singing carols in Asda and in local care homes. We are very proud of you all!

Bws Beics Pwll Coch

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi'r Bws Beics y bore 'ma! Edrychwn ymlaen at drefnu mwy o gyfleoedd yn y flwyddyn newydd.

Pwll Coch Bike Bus

Thanks to everyone who supported the Bike Bus this morning! We look forward to arranging further dates in the new year.

Dyddiadau HMS 2024-25 INSET Dates
Dydd Llun / Monday 06/01/25
Dydd Llun / Monday 03/03/25
Dydd Llun / Monday 21/07/25
Am restr o ddyddiadau tymor ysgol 2024-25, cliciwch yma! For a list of 2024-25 term dates, click here!

Ysgol Gymraeg Pwll Coch – Teulu mawr ŷm ni i gyd!

Cylchlythyr Pythefnosol – Fortnightly Newsletter

20/12/24

Diwrnodau di-wisg ysgol / Non-uniform days	Cyfleoedd i rieni a gwarcheidwaid/ Parental Engagement	Profiadau a Digwyddiadau/ Experiences and Events
07/02/25 Lliwiau Cymru / Welsh Colours (Dydd Miwsig Cymru/ Welsh Language Music Day)	**17/01/25** Holiadur Lles/ Wellbeing Questionnaire	**09/01/25** Brigâd Dân/ Fire Brigade Bl. 2 & Bl. 5
21/02/25 Lliwau Llys/ House Colours (Eisteddfod Ysgol/ School Eisteddfod)	**10/01/25** Sesiwn i rieni gyda'r Nyrs Ysgol/ Drop-in session with the School Nurse	
11/04/25 Diwrnod di-wisg ysgol/ Non-uniform day		**16/01/25** Canolfan yr Urdd/ Urdd Residential Blwyddyn 4
		16/01/25 Pêl rwyd cymysg 5&6/ Mixed netball
		03/02/25 Dydd Celfyddydau Glantaf i Fl 6 Performing Arts Day in Glantaf for Yr 6
		06/02/25 Pêl rwyd merched 5&6/ Girls' netball
	24-27/03/25 Nosweithiau Rhieni/ Parents' Evenings	**14/02/25** Dydd Miwsig Cymru/ Welsh Language Music Day

	14/02/25 Parti Bollywood Party	**06/03/25** Diwrnod y Llyfr/ World Book Day
		13/03/25 Eisteddfod Ddawns/ Dance Eisteddfod
		21/03/25 Diwrnod Trwynau Coch/ Red Nose Day
		24/03/25 Nofion Bl 4 Swimming
		07/04/25 Rygbi 5&6 Rugby
		10/04/25 Rygbi TAG Rugby Bl3&4
		10/04/25 Rygbi TAG Rugby Merched 5&6 Girls

Teithiau Preswyl 2024-25 Residential Trips
Blwyddyn 4 – Bae Caerdydd/ Cardiff Bay 16/01/25-17/01/25